

Astudiaeth Achos: Rheolwr llwyfan - Harriet

Beth ydych chi'n ei wneud?

Rwy'n rheolwr llwyfan theatr cwmni. Mae'r theatr yn cynhyrchu ei gwaith ei hun ar sail cylch o bedair wythnos. Felly, ar unrhyw adeg pan fydd un ddrama'n cael ei hymarfer, bydd drama arall yn cael ei pherfformio gyda'r nos.

Rwyf yng ngofal sawl tîm o reolwyr llwyfan. Mae'r timau hyn yn gyfrifol am drefnu'r cynhyrchiad yn ystod yr ymarferion a'r perfformiadau, trafod â'r adrannau cynhyrchu a dod o hyd i'r propiau y mae eu hangen ar gyfer sioe.



Beth yw'ch cefndir?

Roedd gen i ddiddordeb mawr mewn drama yn yr ysgol, ond doeddwn i ddim am berfformio. Roedd yn well gen i drefnu pethau y tu ôl i'r llenni. Pan adewais i'r ysgol ar ôl sefyll fy arholiadau Safon Uwch dilynais i gwrs theatr dechnegol mewn ysgol ddrama, a chefais fy hyfforddi i fod yn rheolwr llwyfan. Yna, cefais waith fel rheolwr llwyfan cynorthwyol mewn theatr, a gweithiais fy ffordd i fyny drwy'r tîm i fod yn rheolwr cwmni.

Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn llwyddiannus yn eich swydd chi?

Mae angen i bob rheolwr llwyfan fod yn amyneddgar, yn drefnus, yn ddiplomatig iawn ac yn barod bob amser i helpu. Mae angen i chi allu cyfathrebu'n dda â llawer o wahanol bobl, o gyfarwyddwyr ac actorion i drydanwyr a seiri coed, yn ogystal ag aelodau'r gynulleidfa a phobl sy'n rhedeg busnesau lleol.

Yn ddelfrydol, dylech chi fod yn dda am siarad â phobl dros y ffôn a defnyddio prosesydd geiriau. Dylech chi fod yn gallu gweithio'n dda mewn tîm, ond dylech chi hefyd fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb am eich tasgau eich hun.

Pa swyddi eraill allech chi ei wneud gan ddefnyddio'r sgiliau o'r swydd hon?

Ym myd y theatr, gallai rheolwyr llwyfan weithio ar un sioe am sawl blwyddyn yn y West End yn Llundain. Fel arall, gallent weithio ar sioe sy'n teithio o gwmpas y wlad - mewn gwahanol ddinas bob wythnos, neu hyd yn oed bob dydd.

Byddai swyddi eraill perthnasol yn cynnwys swydd cynorthwy-ydd cynhyrchu ym myd teledu neu redwr cynhyrchu ym myd ffilmiau, neu swydd trefnydd cynadleddau i sefydliadau mawr.

Pa newidiadau fydd yn y dyfodol?

Mae cael gafael ar gyllid ar gyfer theatr cwmni bob amser yn peri pryder. Nid yw grantiau awdurdodau lleol wedi cynyddu. At ei gilydd, rwy'n credu y gwelwn ni gyllidebau llai o faint, llai o staff a llai o gynhyrchiadau.

Beth yw heriau mwyaf eich swydd?

Y peth mwyaf heriol am theatr cwmni yw'r ffaith ein bod ni'n gwneud drama wahanol bob rhyw bedair wythnos. Felly, rydym bob amser yn gweithio gydag actorion newydd ac yn gorfod dod o hyd i bropiau a chelfi newydd. Er enghraifft, y tymor diwethaf roedden ni'n perfformio Wizard of Oz, ac roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i gi go iawn. Roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i gamera hen ffasiwn â b?lb fflachio ar gyfer cynhyrchiad arall, ac roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i ddau hen gar a fyddai'n cael eu gyrru i'r llwyfan.

Oes nifer o gyfleoedd i fynd i mewn i'r yrfa hon?

Nid yw mor hawdd ag yr oedd i gael gwaith fel rheolwr llwyfan cynorthwyol, oherwydd mae theatrau'n gyffredinol yn cyflogi llai o staff ar y lefel honno. Er hynny, mae digon o waith ar gael bob amser i ddirprwy reolwr llwyfan neu reolwr llwyfan da.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Un o fy hoff bethau am fy swydd yw trefnu cynhyrchiad cerddorol mawr iawn, lle mae angen trefnu llawer o actorion, cerddorion a staff technegol.

Rwy'n hoffi dod o hyd i brop y mae'n anodd iawn cael gafael arno, a'r teimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth ar ôl cael gafael arno.

Rwyf hefyd yn hoffi canlyn cynhyrchiad i'w derfyn - byddwch bob amser yn teimlo eich bod wedi cyflawni rhywbeth ar ôl gweithio ar gynhyrchiad am sawl mis a'i weld o'r diwedd yn cael ei berfformio o flaen cynulleidfa.

Beth nad ydych chi'n ei hoffi am eich swydd?

Nid oes gen i lawer iawn o gas bethau, oherwydd rwyf wrth fy modd â fy swydd. Ond un o fy nghas bethau yw gorfod dweud y drefn wrth actorion pan fyddant yn hwyr, gan fod hynny'n rhan o fy swydd fel rheolwr cwmni. Rwyf hefyd yn casáu tacluso'r storffeydd propiau, oherwydd maen nhw bob amser yn anhrefnus.

Weithiau, byddwn i'n hoffi gallu strancio am rywbeth, ond fy swydd i yw peidio â chynhyrfu a delio â stranciau pawb arall. Byddai'n braf cael cerdded i ffwrdd a phwdu ambell waith.

Beth yw'ch uchelgeisiau?

Un uchelgais sydd gen i yw dysgu pobl eraill i fod yn rheolwyr llwyfan mewn ysgol ddrama. Ond yn gyffredinol, rwy'n hapus yn fy swydd.

Pa gyngor fyddwch chi'n ei rhoi i rywun sydd â diddordeb yn eich gyrfa chi?

Byddwn i'n argymhell wrth unrhyw rai sy'n ystyried gyrfa gefn llwyfan mewn theatr y dylent ymwneud â grwpiau amatur a grwpiau ysgol. Dylent hefyd geisio cael profiad gwaith yn eu theatr leol.

Pan fyddwch chi dros 16 oed, gallech chi geisio cael swydd yn eich theatr leol - naill ai fel tywysydd neu fel aelod o'r tîm technegol pan fydd yn paratoi ar gyfer y sioe nesaf.

Diwrnod ym mywyd

9:30 am - 10:00 am

Cwrdd â'r tîm yn yr ystafell ymarfer - paratoi ar gyfer y diwrnod drwy drefnu'r propiau a'r celfi. Gwirio beth y mae angen ei wneud, a sicrhau bod te a choffi yn barod.

10:00 am - 1:00 pm

Yr ymarferion yn dechrau. Y dirprwy reolwr llwyfan yn aros yn yr ymarferion tra bydd gweddill y tîm yn treulio amser yn ceisio cael gafael ar bropiau ar gyfer y cynhyrchiad - eu benthyca, eu hurio, eu prynu neu'u cael yn rhoddion.

1:00 pm - 2:00 pm

Cinio.

2:00 pm - 4:00 pm

Paratoi ar gyfer perfformiad gyda'r nos. Gwneud yn siwr bod yr holl bropiau a'r holl gelfi yn y manau cywir ar gyfer dechrau'r sioe.

5:00 pm - 7:00 pm

Y tîm yn cael swper.

7:00 pm - 7:30 pm

Y gynulleidfa'n cael dod i mewn i'r awditoriwm. Cyhoeddi bod y perfformiad ar fin dechrau.

7:30 pm - 10:00 pm

Symud y golygfeydd a'r propiau gan ddilyn y ciwiau. Gwneud yn siwr bod pob achos o newid y goleuadau a'r sain yn

digwydd yn ddiraffferth.

10:00 pm

Y perfformiad yn gorffen. Sicrhau bod unrhyw eitemau gwerthfawr dan glo, diffodd y goleuadau a gwneud yn siwr bod y llwyfan yn ddiogel am y nos.